



OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

WELSH STATUTORY  
INSTRUMENTS

**2022 Rhif 803 (Cy. 179)**

**2022 No. 803 (W. 179)**

**TAI, CYMRU**

**HOUSING, WALES**

**Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi  
(Cymru) 2016 (Diwygio) 2022**

**The Renting Homes (Wales) Act  
2016 (Amendment) Regulations  
2022**

**NODYN ESBONIADOL**

**EXPLANATORY NOTE**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

*(This note is not part of the Regulations)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Atodlenni 2, 3, 8A, 9, 9B a 9C i Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 ("y Ddeddf") (dccc 1).

These Regulations amend Schedules 2, 3, 8A, 9, 9B and 9C to the Renting Homes (Wales) Act 2016 ("the Act") (anaw 1).

Mae rheoliad 2 yn mewnosod ym mharagraff 7(3) o Atodlen 2 (eithriadau i adran 7) i'r Ddeddf, gyfeiriad at denantiaeth neu drwydded sy'n ymwneud â llety a ddarperir gan yr Ysgrifennydd Gwladol, neu ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol (er enghraifft, o dan neu yn rhinwedd trefniadau a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol â pherson arall), mewn cysylltiad â gofyniad a osodir o dan adran 3(6) o Ddeddf Mechnïaeth 1976. Mae hefyd yn ychwanegu cyfeiriad at lety a ddarperir o dan Ran 1 o Ddeddf Rheoli Troseddwy'r 2007 at y dibenion prawf (o fewn ystyr adran 1 o'r Ddeddf honno). Mae'r diwygiad hwn yn golygu na all tenantiaeth na thrwydded o'r fath fyth fod yn gontract meddiannaeth o dan y Ddeddf.

Regulation 2 inserts into paragraph 7(3) of Schedule 2 (exceptions to section 7) to the Act, a reference to a tenancy or licence which relates to accommodation provided by the Secretary of State, or on behalf of the Secretary of State (for example, under or by virtue of arrangements made by the Secretary of State with another person), in connection with a requirement imposed under section 3(6) of the Bail Act 1976. It also adds a reference to accommodation provided under Part 1 of the Offender Management Act 2007 for the probation purposes (within the meaning of section 1 of that Act). This amendment means that such a tenancy or licence can never be an occupation contract under the Act.

Mae rheoliad 2 hefyd yn mewnosod ym mharagraff 7(3) o Atodlen 2 i'r Ddeddf, gyfeiriad at denantiaeth neu drwydded sy'n ymwneud â:

Regulation 2 also inserts into paragraph 7(3) of Schedule 2 to the Act, a reference to a tenancy or licence which relates to:

- (a) llety a ddarperir o dan adran 4 (llety) neu Ran 6 (cymorth i geiswyr lloches) o Ddeddf Mewnfudo a Lloches 1999, a
- (b) cyfleusterau a ddarperir o dan baragraff 9 o Atodlen 10 (mechnïaeth mewnfudo) i Ddeddf Mewnfudo 2016 ar gyfer llety person a ddarperir mewn cyfeiriad a bennir mewn amod mechnïaeth mewnfudo.

- (a) accommodation provided under section 4 (accommodation) or Part 6 (support for asylum seekers) of the Immigration and Asylum Act 1999, and
- (b) facilities provided under paragraph 9 of Schedule 10 (immigration bail) to the Immigration Act 2016 for the accommodation of a person provided at an address specified in an immigration bail condition.

Mae'r diwygiad hwn yn golygu na all unrhyw denantiaeth na thrwydded o'r fath fyth fod yn gontract meddiannaeth o dan y Ddeddf.

Mae rheoliad 3 yn diwygio Atodlen 3 (contractau meddiannaeth a wneir gyda neu a fabwysiedir gan landlordiaid cymunedol y caniateir iddynt fod yn gontractau safonol) i'r Ddeddf i ddileu cyfeiriad at fathau penodol o lety a ddarperir i geiswyr lloches etc. er mwyn adlewyrchu na all tenantiaeth na thrwydded mewn perthynas â llety o'r fath fyth fod yn gontract meddiannaeth.

Mae rheoliad 4 yn diwygio Atodlen 8A (contractau safonol y gellir eu terfynu ar ôl cyfnod hysbysu o ddau fis o dan adran 173 neu o dan gymal terfynu'r landlord) i'r Ddeddf i ddileu cyfeiriad at fathau penodol o lety a ddarperir i geiswyr lloches etc. er mwyn adlewyrchu na all tenantiaeth na thrwydded mewn perthynas â llety o'r fath fyth fod yn gontract meddiannaeth.

Mae rheoliad 5 yn diwygio Atodlen 9 (contractau safonol nad yw'r cyfyngiadau yn adrannau 175 a 196 (pryd y caniateir rhoi hysbysiad y landlord) yn gymwys iddynt) i'r Ddeddf, i ddileu cyfeiriad at fathau penodol o lety a ddarperir i geiswyr lloches etc. er mwyn adlewyrchu na all tenantiaeth na thrwydded mewn perthynas â llety o'r fath fyth fod yn gontract meddiannaeth.

Mae rheoliad 6 yn diwygio Atodlen 9B (contractau safonol cyfnod penodol y gellir eu terfynu drwy roi hysbysiad o dan adran 186) i'r Ddeddf, i ddileu cyfeiriad at fathau penodol o lety a ddarperir i geiswyr lloches etc. er mwyn adlewyrchu na all tenantiaeth na thrwydded mewn perthynas â llety o'r fath fyth fod yn gontract meddiannaeth.

Mae rheoliad 7 yn diwygio Atodlen 9C (contractau safonol cyfnod penodol a gaiff gynnwys cymal terfynu'r landlord hyd yn oed os ydynt wedi eu gwneud am gyfnod llai na dwy flynedd) i'r Ddeddf, i ddileu cyfeiriad at fathau penodol o lety a ddarperir i geiswyr lloches etc. er mwyn adlewyrchu na all tenantiaeth na thrwydded mewn perthynas â llety o'r fath fyth fod yn gontract meddiannaeth.

Mae rheoliad 8 yn gwneud diwygiad canlyniadol i baragraff 2 o Atodlen 11 i Ddeddf Mewnfudo 2016 ("Deddf 2016"). Bydd paragraff 1 o Atodlen 11 i Ddeddf 2016, pan ddaw i rym yn llawn, yn diddymu adran 4 o Ddeddf 1999. Pan gaiff adran 4 o Ddeddf 1999 ei diddymu a phan ddaw paragraff 2 o Atodlen 11 i Ddeddf 2016 i rym, bydd y diwygiad a wneir gan reoliad 8 yn hepgor y cyfeiriad at adran 4 o Ddeddf 1999 ym mharagraff 7(3)(k)(i) o Atodlen 2 i'r Ddeddf (fel y'i mewnosodir gan reoliad 2).

This amendment means that any such tenancy or licence can never be an occupation contract under the Act.

Regulation 3 amends Schedule 3 (occupation contracts made with or adopted by community landlords which may be standard contracts) to the Act to remove reference to certain kinds of accommodation provided for asylum seekers etc. to reflect that a tenancy or licence in relation to such accommodation can never be an occupation contract.

Regulation 4 amends Schedule 8A (standard contracts which can be terminated on two months' notice under section 173 or a landlord's break clause) to the Act to remove reference to certain kinds of accommodation provided for asylum seekers etc. to reflect that a tenancy or licence in relation to such accommodation can never be an occupation contract.

Regulation 5 amends Schedule 9 (standard contracts to which the limits in sections 175 and 196 (when landlord's notice may be given) do not apply) to the Act, to remove reference to certain kinds of accommodation provided for asylum seekers etc. to reflect that a tenancy or licence in relation to such accommodation can never be an occupation contract.

Regulation 6 amends Schedule 9B (fixed term standard contracts which can be terminated by giving notice under section 186) to the Act, to remove reference to certain kinds of accommodation provided for asylum seekers etc. to reflect that a tenancy or licence in relation to such accommodation can never be an occupation contract.

Regulation 7 amends Schedule 9C (fixed term standard contracts which may contain a landlord's break clause even if made for a term of less than two years) to the Act, to remove reference to certain kinds of accommodation provided for asylum seekers etc. to reflect that a tenancy or licence in relation to such accommodation can never be an occupation contract.

Regulation 8 makes a consequential amendment to paragraph 2 of Schedule 11 to the Immigration Act 2016 ("the 2016 Act"). Paragraph 1 of Schedule 11 to the 2016 Act will, when it fully comes into force, repeal section 4 of the 1999 Act. The amendment made by regulation 8 will, when section 4 of the 1999 Act is repealed and paragraph 2 of Schedule 11 to the 2016 Act comes into force, omit the reference to section 4 of the 1999 Act in paragraph 7(3)(k)(i) of Schedule 2 to the Act (as inserted by regulation 2).

Mae rheoliad 9 yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Atodlen 6 i Ddeddf Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) 2021, yn ymwneud â'r ddarpariaeth yn rheoliadau 3 a 5.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r offeryn hwn.

Regulation 9 makes consequential amendments to Schedule 6 to the Renting Homes (Amendment) (Wales) Act 2021, related to the provision in regulations 3 and 5.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with this instrument.

**2022 Rhif 803 (Cy. 179)**

**2022 No. 803 (W. 179)**

**TAI, CYMRU**

**HOUSING, WALES**

**Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi  
(Cymru) 2016 (Diwygio) 2022**

**The Renting Homes (Wales) Act  
2016 (Amendment) Regulations  
2022**

*Gwnaed*

*13 Gorffennaf 2022*

*Made*

*13 July 2022*

*Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(1)*

*Coming into force in accordance with regulation  
1(1)*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan baragraff 17 o Atodlen 2 i Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016(1), paragraff 17 o Atodlen 3 iddi, paragraff 13 o Atodlen 8A(2) iddi, paragraff 13 o Atodlen 9 iddi, paragraff 11 o Atodlen 9B(3) iddi a pharagraff 11 o Atodlen 9C(4) iddi, ac adrannau 255(5) a 256(1) a (2)(6) iddi.

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred on them by paragraph 17 of Schedule 2, paragraph 17 of Schedule 3, paragraph 13 of Schedule 8A(1), paragraph 13 of Schedule 9, paragraph 11 of Schedule 9B(2) and paragraph 11 of Schedule 9C(3) to and sections 255(4) and 256(1) and (2)(5) of the Renting Homes (Wales) Act 2016(6).

Yn unol ag adran 256(3), (4)(h), (i), (la)(7), (m), (mb)(8), (mc)(9) a (5) o'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Senedd Cymru(10) ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad.

In accordance with section 256(3), (4)(h), (i), (la)(7), (m), (mb)(8), (mc)(9) and (5) of that Act, a draft of these Regulations has been laid before and approved by a resolution of Senedd Cymru(10).

---

(1) 2016 decc 1.

(2) Mewnosodwyd Atodlen 8A gan adran 3 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) 2021 (dsc 3) ac Atodlen 1 iddi.

(3) Mewnosodwyd Atodlen 9B gan adran 10(3) o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) 2021 ac Atodlen 3 iddi.

(4) Mewnosodwyd Atodlen 9C gan adran 11(2) o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) 2021 ac Atodlen 4 iddi.

(5) Diwygiwyd adran 255(2) gan adran 14 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Diwygio)(Cymru) 2021 a pharagraff 8 o Atodlen 5 iddi.

(6) Diwygiwyd adran 256(2) gan adran 18 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) 2021 a pharagraff 21(a) o Atodlen 6 iddi.

(7) Mewnosodwyd adran 256(4)(la) gan adran 18 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) 2021 a pharagraff 21(b)(ii) o Atodlen 6 iddi.

(8) Mewnosodwyd adran 256(4)(mb) gan adran 18 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) 2021 a pharagraff 21(c) o Atodlen 6 iddi.

(9) Mewnosodwyd adran 256(4)(mc) gan adran 18 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) 2021 a pharagraff 21(c) o Atodlen 6 iddi.

(10) Mae'r cyfeiriadau yn adran 256(3) a (5) o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 at Gynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn cael effaith fel cyfeiriadau at Senedd Cymru yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

---

(1) Schedule 8A was inserted by section 3 of and Schedule 1 to the Renting Homes (Amendment) (Wales) Act 2021 (asc 3).

(2) Schedule 9B was inserted by section 10(3) of and Schedule 3 to the Renting Homes (Amendment) (Wales) Act 2021.

(3) Schedule 9C was inserted by section 11(2) of and Schedule 4 to the Renting Homes (Amendment) (Wales) Act 2021.

(4) Section 255(2) was amended by section 14 of and paragraph 8 of Schedule 5 to the Renting Homes (Amendment) (Wales) Act 2021.

(5) Section 256(2) was amended by section 18 of and paragraph 21(a) of Schedule 6 to the Renting Homes (Amendment) (Wales) Act 2021.

(6) 2016 anaw 1.

(7) Section 256(4)(la) was inserted by section 18 of and paragraph 21(b)(ii) of Schedule 6 to the Renting Homes (Amendment) (Wales) Act 2021.

(8) Section 256(4)(mb) was inserted by section 18 of and paragraph 21(c) of Schedule 6 to the Renting Homes (Amendment) (Wales) Act 2021.

(9) Section 256(4)(mc) was inserted by section 18 of and paragraph 21(c) of Schedule 6 to the Renting Homes (Amendment) (Wales) Act 2021.

(10) The references in section 256(3) and (5) of the Renting Homes (Wales) Act 2016 to the National Assembly for Wales now have effect as references to Senedd Cymru by virtue of section 150A(2) of the Government of Wales Act 2006 (c. 32).

## Enwi, cychwyn a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygio) 2022 a deuant i rym ar y diwrnod y daw adran 239 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 i rym(1).

(2) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr “y Ddeddf” yw Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016.

## Diwygio Atodlen 2

2. Yn Atodlen 2 i'r Ddeddf (eithriadau i adran 7), ym mharagraff 7(3)(2) ar ôl paragraff (i) mewnosoder—

“(j) tenantiaeth neu drwydded sy'n ymwneud â llety a ddarperir—

(i) gan, neu ar ran, yr Ysgrifennydd Gwladol mewn cysylltiad â gofyniad a osodwyd o dan adran 3(6) (darpariaethau cyffredinol)(3) o Ddeddf Mechniaeth 1976 (p. 63)(4), neu

(ii) o dan Ran 1 (trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau prawf) o Ddeddf Rheoli Troseddwyd 2007 (p. 21)(5) at y dibenion prawf (o fewn ystyr adran 1(6) o'r Ddeddf honno);

(k) tenantiaeth neu drwydded sy'n ymwneud â—

(i) llety a ddarperir o dan adran 4 (llety)(7) neu Ran 6 (cymorth i geiswyr lloches etc.) o Ddeddf

## Title, commencement and interpretation

1.—(1) The title of these Regulations is the Renting Homes (Wales) Act 2016 (Amendment) Regulations 2022 and they come into force on the day on which section 239 of the Renting Homes (Wales) Act 2016 comes into force(1).

(2) In these Regulations “the Act” means the Renting Homes (Wales) Act 2016.

## Amendment to Schedule 2

2. In Schedule 2 to the Act (exceptions to section 7), in paragraph 7(3)(2) after paragraph (i) insert—

“(j) a tenancy or licence which relates to accommodation provided—

(i) by, or on behalf of, the Secretary of State in connection with a requirement imposed under section 3(6) (general provisions)(3) of the Bail Act 1976 (c. 63)(4), or

(ii) under Part 1 (arrangements for the provision of probation services) of the Offender Management Act 2007 (c. 21)(5) for the probation purposes (within the meaning of section 1(6) of that Act);

(k) a tenancy or licence which relates to—

(i) accommodation provided under section 4 (accommodation)(7) or Part 6 (support for asylum-seekers,

---

(1) Daw adran 239 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 i rym ar ddiwrnod a benodir gan Weinidogion Cymru mewn gorchymyn a drwy offeryn statudol.

(2) Diwygiwyd paragraff 7(3) o Atodlen 2 i'r Ddeddf gan adran 14 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) 2021 a pharagraff 5(2) o Atodlen 5 iddi.

(3) Diwygiwyd is-adran (6) gan adrannau 27(2)(a) a 168(3) o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994 (p. 33) ac Atodlen 11 iddi, adrannau 13(1) a 332 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 (p. 44) a Rhan 2 o Atodlen 37 iddi, adran 54(2) o Ddeddf Troseddau ac Anrhefn 1988 (p. 37) ac adran 208(1) o Ddeddf Gwasanaethau Cyfreithiol 2007 (p. 29) a pharagraffau 33 a 34 o Atodlen 21 iddi.

(4) 1976 p. 63.

(5) 2007 p. 21.

(6) Diwygiwyd adran 1 gan adran 148(1) o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnffudo 2008 (p. 4), a pharagraff 83(a) a (b) o Ran 2 o Atodlen 26 iddi; adran 410 o Ddeddf Dedfrydu 2020 (p. 17) a pharagraff 261 o Ran 1 o Atodlen 24 iddi; ac adran 38(3) o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd 2015 (p. 2) a pharagraffau 24 a 25 o Atodlen 9 iddi.

(7) Diwygiwyd adran 4 gan adran 49 o Ddeddf Cenedligrwydd, Mewnffudo a Lloches 2002 (p. 41), adran 10(1) a (6) o Ddeddf Lloches a Mewnffudo (Trin Hawlwyr, etc) 2004 (p. 19), adran 43(7) o Deddf Mewnffudo, Lloches a Chenedligrwydd 2006 (p. 13) ac mae wedi ei diddymu'n rhannol gan adran 66 o Ddeddf Mewnffudo 2016 (p. 19) a pharagraff 1 o Ran 1 o Atodlen 11 iddi.

---

(1) Section 239 of the Renting Homes (Wales) Act 2016 comes into force on a day appointed by the Welsh Ministers in an order made by statutory instrument.

(2) Paragraph 7(3) of Schedule 2 to the Act was amended by section 14 of and paragraph 5(2) of Schedule 5 to the Renting Homes (Amendment) (Wales) Act 2021.

(3) Sub-section (6) was amended by sections 27(2)(a) and 168(3) of, and Schedule 11 to the Criminal Justice and Public Order Act 1994 (c. 33), sections 13(1) and 332 of, and Part 2 of Schedule 37 to, the Criminal Justice Act 2003 (c. 44), section 54(2) of the Crime and Disorder Act 1988 (c. 37) and section 208(1) of and paragraphs 33 and 34 of Schedule 21 to the Legal Services Act 2007 (c. 29).

(4) 1976 c. 63.

(5) 2007 c. 21.

(6) Section 1 was amended by section 148(1) of and paragraph 83(a) and (b) of Part 2 of Schedule 26 to the Criminal Justice and Immigration Act 2008 (c. 4); section 410 of and paragraph 261 of Part 1 of Schedule 24 to the Sentencing Act 2020 (c. 17); and section 38(3) of and paragraphs 24 and 25 of Schedule 9 to the Criminal Justice and Courts Act 2015 (c. 2).

(7) Section 4 was amended by section 49 of the Nationality, Immigration and Asylum Act 2002 (c. 41), section 10(1) and (6) of the Asylum and Immigration (Treatment of Claimants, etc) Act 2004 (c. 19), section 43(7) of the Immigration, Asylum and Nationality Act 2006 (c. 13) and has been partially repealed by section 66 of and paragraph 1 of Part 1 of Schedule 11 to the Immigration Act 2016 (c. 19).

Mewnfudo a Lloches 1999(p. 33)(1), neu

- (ii) cyfleusterau a ddarperir o dan baragraff 9 o Atodlen 10 i Ddeddf Mewnfudo 2016 (c. 19) (mechnïaeth mewnfudo)(2) ar gyfer llety i berson a ddarperir mewn cyfeiriad a bennir mewn amod mechnïaeth mewnfudo.”

etc.) of the Immigration and Asylum Act 1999 (c. 33)(1), or

- (ii) facilities provided under paragraph 9 of Schedule 10 to the Immigration Act 2016 (c. 19) (immigration bail)(2) for the accommodation of a person at an address specified in an immigration bail condition.”

### Diwygio Atodlen 3

3. Yn Atodlen 3 i'r Ddeddf (contractau meddiannaeth a wneir gyda neu a fabwysiedir gan landlordiaid cymunedol y caniateir iddynt fod yn gontractau safonol), hepgorer paragraff 4(3) a'r pennawd italig o flaen y paragraff hwnnw.

### Diwygio Atodlen 8A

4. Yn Atodlen 8A i'r Ddeddf (contractau safonol y gellir eu terfynu ar ôl cyfnod hysbysu o ddau fis o dan adran 173 neu o dan gymal terfynu'r landlord), hepgorer paragraff 5 a'r pennawd italig o flaen y paragraff hwnnw.

### Diwygio Atodlen 9

5. Yn Atodlen 9 i'r Ddeddf (contractau safonol nad yw'r cyfyngiadau yn adrannau 175 a 196 (pryd y caniateir rhoi hysbysiad y landlord) yn gymwys iddynt), hepgorer paragraff 4(4) a'r pennawd italig o flaen y paragraff hwnnw.

### Diwygio Atodlen 9B

6. Yn Atodlen 9B i'r Ddeddf (contractau safonol cyfnod penodol y gellir eu terfynu drwy roi hysbysiad o dan adran 186), hepgorer paragraff 3 a'r pennawd italig o flaen y paragraff hwnnw.

### Diwygio Atodlen 9C

7. Yn Atodlen 9C i'r Ddeddf (contractau safonol cyfnod penodol a gaiff gynnwys cymal terfynu'r landlord hyd yn oed os ydynt wedi eu gwneud am gyfnod llai na dwy flynedd), hepgorer paragraff 3 a'r pennawd italig o flaen y paragraff hwnnw.

### Amendment to Schedule 3

3. In Schedule 3 to the Act (occupation contracts made with or adopted by community landlords which may be standard contracts), omit paragraph 4(3) and the italic heading before that paragraph.

### Amendment to Schedule 8A

4. In Schedule 8A to the Act (standard contracts which can be terminated on two months' notice under section 173 or a landlord's break clause), omit paragraph 5 and the italic heading before that paragraph.

### Amendment to Schedule 9

5. In Schedule 9 to the Act (standard contracts to which limits in sections 175 and 196 (when landlord's notice may be given) do not apply), omit paragraph 4(4) and the italic heading before that paragraph.

### Amendment to Schedule 9B

6. In Schedule 9B to the Act (fixed term standard contracts which can be terminated by giving notice under section 186), omit paragraph 3 and the italic heading before that paragraph.

### Amendment to Schedule 9C

7. In Schedule 9C to the Act (fixed term standard contracts which may contain a landlord's break clause even if made for a term of less than two years), omit paragraph 3 and the italic heading before that paragraph.

---

(1) 1999 p. 33.

(2) 2016 p. 19.

(3) Diwygiwyd paragraff 4 o Atodlen 3 i'r Ddeddf gan adran 18 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) 2021 a pharagraffau 1 a 23 o Atodlen 6 iddi.

(4) Diwygiwyd paragraff 4 o Atodlen 9 i'r Ddeddf gan adran 18 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) 2021 a pharagraffau 1 a 26(1) a (3) o Atodlen 6 iddi.

---

(1) 1999 c. 33.

(2) 2016 c. 19.

(3) Paragraph 4 of Schedule 3 to the Act was amended by section 18 of and paragraphs 1 and 23 of Schedule 6 to the Renting Homes (Amendment) (Wales) Act 2021.

(4) Paragraph 4 of Schedule 9 to the Act was amended by section 18 of and paragraphs 1 and 26(1) and (3) of Schedule 6 to the Renting Homes (Amendment) (Wales) Act 2021.

## Diwygiadau canlyniadol

8. Yn Ndedd Mewnfudo 2016, ym mharagraff 2 o Atodlen 11, ar ôl paragraff (m), mewnosoder—

“(n) in paragraph 7(3)(k)(i) of Schedule 2 to the Renting Homes (Wales) Act 2016 (anaw 1), in the English language text omit “section 4 (accommodation) or” and in the Welsh Language text omit “adran 4 (llety) neu”.”.

9. Yn Ndedd Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) 2021(1), yn Atodlen 6 (mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol)—

- (a) hepgorer paragraff 23;
- (b) hepgorer paragraff 26(3).

## Consequential amendments

8. In the Immigration Act 2016, in paragraph 2 of Schedule 11, after paragraph (m), insert—

“(n) in paragraph 7(3)(k)(i) of Schedule 2 to the Renting Homes (Wales) Act 2016 (anaw 1), in the English language text omit “section 4 (accommodation) or” and in the Welsh language text omit “adran 4 (llety) neu”.”.

9. In the Renting Homes (Amendment) (Wales) Act 2021(1), in Schedule 6 (minor and consequential amendments)—

- (a) omit paragraph 23;
- (b) omit paragraph 26(3).

*Julie James*

Y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion  
Cymru  
13 Gorffennaf 2022

---

© Hawlfraint y Goron 2022

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

Minister for Climate Change, one of the Welsh  
Ministers  
13 July 2022

---

© Crown copyright 2022

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£6.90

<http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2022/803>

ISBN 978-0-348-39341-5



9 780348 393415